Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Ffôr

Y Ganolfan Gymdeithasol
Y Ffor
Pwllheli
LL53 6UP

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2022

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Y Ffôr

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Y Ffôr |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Heidi Jones |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Wendy Williams |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 6 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8:30 y.b. – 12:15 y.h. Dydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 11 Chwefror 2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2012 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 22/03/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu'r defnydd o'r ardal leol er mwyn rhoi cyfleoedd i blant ddod yn gyfarwydd â, a theimlo fel rhan o'r gymuned.

A2 Ffurfio pwyllgor rheoli er mwyn sicrhau cefnogaeth ychwanegol i'r person cofrestredig a'r person â gofal.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn cyrraedd y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni neu ofalwyr ac yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau gyda'u ffrindiau. Mae bron pob plentyn wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda'r ymarferwyr ac yn hyderus y byddant yn medru mynd atynt am gymorth neu gefnogaeth fel bo angen. Maent yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac yn awyddus i rannu eu llwyddiannau. Er enghraifft, maent yn gwenu a dangos balchder yn eu gwaith ar ôl i ymarferydd ganmol eu gwaith celf.

Mae bron bob plentyn yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau drostynt eu hunain yn effeithiol. Maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu a chwarae yn rhwydd gan ddilyn eu diddordebau a dewis o'r amrywiaeth o brofiadau sydd ar gael iddynt. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau'n hyderus. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau gydag oedolion ac yn ffyddiog y bydd ymarferwyr yn dangos diddordeb a pharchu yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Er enghraifft, wrth i blentyn sylwi ar wê pry copyn tra'n chwarae tu allan roedd yn awyddus i rannu hyn gyda'r ymarferwyr. Cawsant sgwrs am bryfaid cop ac roedd y plentyn yn ymfalchio bod yr ymarferwyr yn gwrando'n astud a rhannu ei diddordeb.

Mae'r rhan fwyaf o blant wedi cychwyn gwneud ffrindiau a ffurfio perthnasau positif gyda'u cyfoedion. Maent yn rhyngweithio'n dda ac yn mwynhau chwarae a chwblhau tasgau gyda'i gilydd. Mae bron pob plentyn yn cymdeithasu'n fodlon ac yn hapus i rannu teganau a chymryd tro yn ddiffwdan. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae plant yn cydweithio i greu llwybr gyda'r planciau pren a'r teiars, a cymryd eu tro i gerdded ar hyd y llwybr ac yna yn llongyfarch ei gilydd am gyrraedd y pen arall.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio'n dda wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau yn dda wrth arbrofi gyda toes gan ychwanegu secwins a defnyddio torwyr siâp gwahanol. Mae'r rhan fwyaf yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae gyda deunyddiau naturiol a defnyddio eu dychymyg yn effeithiol. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn arbrofi gyda dŵr a chwistrell i greu pyllau ac yn defnyddio sialc i newid lliw y pyllau dŵr.

Mae bron pob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn dechrau ar eu gwaith celf ar ôl iddynt gasglu siswrn, pinnau ffelt, sticeri a phapur eu hunain. Yn ogystal, yn ystod amser byrbryd, mae bron pob plentyn yn awyddus i olchi dwylo ac arllwys diod yn annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Ni does adroddiad ar ddysgu'r plant. Rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol yn eu lle er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant perthnasol ac yn gyfarwydd gyda'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth priodol pe byddai angen. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn arwyddo'r cofnodion hyn. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n reolaidd a'u cofnodi'n effeithiol.

Gwneir defnydd da o weithdrefnau pwrpasol er mwyn atal lledaenu haint. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled ac wrth ddilyn gweithdrefnau addas wrth drin bwyd. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn annog plant i fwyta ffrwythau ac yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r ymarferwyr wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda'r plant ac yn siarad gyda nhw yn annwyl ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Mae pob ymarferydd yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro a thrwy roi esboniad clir pan nad ydy eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r holl ymarferwyr yn modelu sgiliau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae wrth ochr y plant.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant gychwyn mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant. Mae gweithdrefnau cadarn yn eu lle i sicrhau bod ymarferwyr yn medru gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol os oes angen trefnu unrhyw gymorth ychwanegol. Mae ymarferwyr yn olrhain cynnydd y plant yn effeithiol drwy gynnal arsylwadau ac asesiadau rheolaidd. Maent hefyd yn creu llyfrau pwrpasol i rannu gyda rhieni ar ddiwedd pob blwyddyn sy'n cynnwys ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a rhai o'u llwyddiannau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu cwricwlwm difyr sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn dda. Maent hefyd wedi cychwyn cyflwyno ethos y Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus wrth drosglwyddo yn effeithiol i ddull o gynllunio yn y foment. Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu a chwarae gwerthfawr tu fewn a thu allan yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant ac yn llwyddo i greu dysgwyr annibynnol.

Mae'r holl ymarferwyr yn modelu iaith lafar yn effeithiol gan atgyfnerthu patrymau iaith a geirfa gyfarwydd yn gadarn trwy gydol y sesiwn. Maent yn sgwrsio yn naturiol,

yn gwrando ar ymdrechion ieithyddol y plant ac yn holi yn fedrus er mwyn ehangu eu dealltwriaeth a medrau meddwl yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth iddynt drafod ble mae'r dŵr am lifo pan mae tameidiau gwteri heb eu cysylltu'n gywir.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod o brofiadau diddorol i'r plant sy'n llwyddo i greu dysgwyr chwilfrydig a datblygu eu medrau'n llwyddiannus. Er enghraifft, wrth iddynt ddefnyddio sosbenni, dŵr, pridd a pherlysiau mae plant yn cael cyfleoedd i ymgolli yn eu chwarae a datblygu eu medrau corfforol, creadigol a mathemategol. Mae'r ddarpariaeth wych hyn yn rhoi cyfle i bob un plentyn chwarae a chanolbwyntio am gyfnodau hir a dysgu ar lefel eu hunain.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau corfforol a chreadigol y plant yn dda. Maent yn rhoi cyfleoedd buddiol iddynt ddysgu yn ymarferol gan ddefnyddio amrywiaeth o offer i dorri, gludo, gwasgu a rholio wrth greu marciau ac arbrofi gyda chlai. Mae ymarferwyr yn annog plant i fod yn greadigol ac i fwynhau'r broses ac ymgolli eu hunain wrth greu ac arbrofi. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleodd pwrpasol i blant ddefnyddio offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) yn eu dysgu a'u chwarae, er enghraifft wrth drafod eu ffilimau ar gyfrifiadadur llechen.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod pob plentyn yn dda ac mae perthynas agos yn bodoli rhyngddynt. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am ddidordebau a chefndir y plant yn effeithiol i ddatblygu eu medrau ymhellach, er enghraifft, wrth iddynt annog plant i drafod eu  teuluoedd ac anifeiliaid anwes. Maent yn goruchwylio yn effeithiol ac yn ymwybodol o bryd i ymuno yn y chwarae a manteisio ar unrhyw gyfleoedd i sgaffaldio'r dysgu. Mae gweithdrefnau arsylwi ag asesu datblygiad y plant yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn arsylwi yn gyson ac yn nodi beth mae'r plant yn ei gyflawni. Maent yn galluogi plant i ailadrodd a mireinio eu sgiliau ac yn gosod heriau perthnasol er mwyn iddynt fentro at y camau nesaf yn eu datblygiad.

Yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn darparu rhai cyfleoedd diddorol sy'n cymell plant i ddangos diddordeb am fywydau pobl eraill ar draws y byd. Er enghraifft, wrth greu draig Tsienaidd a murlun teigr wrth drafod a dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieniedd. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd buddiol i'r plant ddysgu am Gymru a gwahanol draddodiadau fel Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Mae'r ymarferwyr yn gwneud rywfaint o ddefnydd o'r gymuned. Fodd bynnag, nid ydynt wedi manteisio digon ar ddefnyddio'r ardal leol i atgyfnerthu'r profiadau dysgu a theimlad o fod yn perthyn i'r gymuned.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol yn eu lle er mwyn monitro a rheoli unrhyw beryglon posib. Mae asesiadau risg ysgrifenedig yn eu lle. Mae'r rhain yn gynhwysfawr ac yn amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r ardaloedd chwarae, teganau ac adnoddau ac yn cadw cofnod o unrhyw gamau pellach bydd angen eu dilyn. Pan mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod, mae ymarferwyr yn delio gyda'r rhain yn gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, drwy lanhau'r dŵr, tywod a chlai oddi ar y llawr yn gyson er mwyn lleihau'r risg o lithro.

Mae'r ardaloedd chwarae yn braf, cyfforddus a chysurus ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael teimlad o berthyn drwy arddangos esiamplau o'u gwaith ar y waliau. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr ystafell chwarae yn cynnig ystod o ardaloedd dysgu pwrpasol gydag ystod eang o weithgareddau ac adnoddau sy'n cyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac offer naturiol fel moch coed, brigau a chregyn ym mhob un o'r ardaloedd chwarae er mwyn adeiladu ar ddealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Mae'r ardal chwarae allanol yn cynnig nifer fawr o brofiadau cyffrous sy'n ennyn diddordeb y plant yn effeithiol. Er enghraifft, cyfle i arborfi gyda perlysiau yn y cegin fwd ac i arbrofi gyda phibellau a chynhwysyddion gwahanol wrth chwarae gyda'r dŵr.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous o ansawdd da ar gael i blant. Maent yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr ar gael i blant chwarae ac arbrofi gyda deunyddiau wedi ailgylchu, er enghraifft wrth ddefnyddio bocsys gwag a riliau mawr pren yn yr ardal adeiladu. Mae'r holl ddodrefn a'r offer yn addas ar gyfer oedran a maint y plant. Cedwir cofnodion trylwyr o'r tasgau glanhau, gan gynnwys di-heintio'r teganau'n rheolaidd. O ganlyniad, mae'r offer a'r teganau yn lân ac mewn cyflwr da iawn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan y person cofrestredig a'r person â gofal weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddarparu gwasanaeth o safon uchel o ran lles, gofal a dysgu o fewn awyrgylch Gymreig. Mae'r ymarferwyr a'r person â gofal yn cydweithio'n llwyddiannus iawn fel tîm er mwyn cyflawni'r weledigaeth. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'u hunain sy'n cyfrannu'n werthfawr at sicrhau awyrgylch ysgogol a chefnogol ar gyfer y plant. Maent yn cwrdd yn rheolaidd er mwyn trefnu profiadau chwarae a dysgu gwerthfawr ar gyfer y plant. Yn ogystal maent yn dechrau paratoi'n frwdfrydig ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a'r ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Mae'r person cofrestredig a'r person â gofal yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau safonau uchel ar draws y lleoliad. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn gymwys a phrofiadol ac yn gwneud y defnydd gorau o'u medrau personol i gyflawni amcanion y lleoliad. Mae'r person cofrestredig a'r person â gofal yn dilyn trefniadau effeithiol i oruchwylio a monitro ymarferwyr yn rheolaidd. O ganlyniad, mae hyfforddiant ar gyfer cefnogi gwybodaeth yr holl dîm yn ymateb i'r targedau synhwyrol a phwrpasol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid oes pwyllgor sefydlog ar gyfer cefnogi'r lleoliad. O ganlyniad, mae rhan fawr o'r ddyletswyddau rheolaethol yn disgyn ar person â gofal a'r person cofrestredig, sydd hefyd yn ymarferydd y lleoliad.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau hunanwerthuso sefydlog ar waith drwy gydol y flwyddyn. Mae'r person cofrestredig a'r person â gofal yn sicrhau bod ganddynt ystyriaeth gadarn o farnau ymarferwyr, rhieni a'r plant. Gwneir hyn drwy ddefnyddio holiaduron a thrafodaethau cyson er mwyn ymateb i anghenion plant yn ddeallus.

Mae gan y lleoliad ystod eang o bartneriaethau gwerthfawr sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a safonau'r plant. Mae'r person cofrestredig a'r person â gofal yn cyd-weithio'n agos gyda'r ysgol i wneud defnydd buddiol o dir yr ysgol ar gyfer creu ardal effeithiol tu allan sy'n datblygu sgiliau llythrennedd a chorfforol y

plant yn fuddiol iawn. Mae cysylltiadau hefo ysgolion lleol yn helpu plant wrth drosglwyddo ar ddiwedd eu hamser yn y cylch. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfle i fynychu sesiynau blasu yn y dosbarthiadau meithrin ac mae'r athrawon meithrin yn ymweld a'r cylch cyn I'r plant drosglwyddo i'r ysgol. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio yn effeithiol iawn hefo athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac yn gweithredu ar gyngor i ddatblygu'r ddarpariaeth yn barhaus.

Mae'r lleoliad yn elwa o bartneriaeth fuddiol gyda rhieni. Mae arweinwyr yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am weithgareddau drwy wefan gymdeithasol ac wrth rannu gwybodaeth bwysig am ddatblygiad eu plant yn rheolaidd. Maent yn ymateb i holiaduron rhieni i drefnu bod cyfle buddiol i blant, ymarferwyr a theuluoedd ddod i adnabod ei gilydd yn well.  Mae hyn yn cyfrannu'n dda at les a datblygiad y plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/05/2022